# Cynllun gweithredol blynyddol 2026/27

## Banc Datblygu Cymru



# Trosolwg

# Ein hymrwymiadau 5 mlynedd

**Pwrpas**

## Dod ag uchelgeisiau yn fyw a sbarduno posibiliadau i bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru.

**Cenhadaeth**

Datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu'r cyflenwad a hygyrchedd cyllid cynaliadwy ac effeithiol.

**Gwerthoedd**

– Cydweithrediad craff
– Egni entrepreneuraidd
– Empathi gwrthrychol
– Cyfrifoldeb ymwybodol

### Targedau cyflawni gwaelodlin 2022/27

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cefnogi dros **2,200** o fusnesau | Cefnogwyd dros **20,000** o swyddi | Buddsoddi dros **£650m** yn uniongyrchol mewn cwmnïau Cymreig | Targedu buddsoddiad ar y cyd ar gronfeydd busnes o **1:1** |
| Cyflawni ein haddewid i Gynllun Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru – **Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net** | Cynnal Sgôr Hyrwyddwr Net cwsmer o **60** | Cynnal Sgôr Hyrwyddwr Net cyflogai o **60** | Ariannu adeiladu **1,900** o dai newydd |

### Amcanion strategol cyfnod pum mlynedd

| Craidd: Darparu cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol | Newydd: Hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru | Gweithredol: Rhagoriaeth cyflawni, cwsmer-gyntaf, cynaliadwyedd ariannol |
|---|---|---|
| 1. Hwyluso diwylliant mentergarol yng Nghymru, o'r sylfaen hyd at fusnesau twf uchel | 1. Defnyddio ein sefyllfa a'n dylanwad i hyrwyddo cyfnod pontio cadarn, cymesur i ddyfodol gwyrdd ar draws yr ecosystem fusnes yng Nghymru | 1. Sicrhau darpariaeth gydweithredol ac ymatebol sy'n bodloni anghenion esblygol cwsmeriaid |
| 2. Cefnogi cynhwysiant ariannol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chreu effaith gadarnhaol yn economi Cymru | 2. Datblygu offerynnau ariannol arloesol i hyrwyddo'r uchelgeisiau ar gyfer dyfodol gwyrdd yng Nghymru | 2. Gwreiddio cynaliadwyedd ariannol yn yr hir dymor trwy ddefnydd arloesol o gyfalaf ar gyfer anghenion parhaus y farchnad |
| 3. Gweithio gyda'n cwsmeriaid newydd a phresennol i'w hannog i nodi a blaenoriaethu cyfleoedd effaith gymdeithasol fel rhan o'u cynllunio busnes | 3. Gwella'n barhaus ein gwybodaeth, ein sgiliau a'n dealltwriaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd a rôl cyllid wrth ddarparu datrysiadau | 3. Gwneud y defnydd gorau posibl o'n gallu i gefnogi'r gwaith o gyflawni polisi'r llywodraeth drwy ein strwythur a'n harbenigedd |

Gweler ein cynllun corfforaethol 2022-27 am ragor o fanylion. Mae perfformiad yn erbyn ein targedau pum mlynedd i'w weld yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

# Trosolwg

Yn ein hwythfed flwyddyn fel Banc Datblygu Cymru, gwnaethom nodi'r garreg filltir arwyddocaol o £1bn o fuddsoddiad uniongyrchol ym musnesau Cymru. Mae'r cyflawniad hwn yn tanlinellu twf parhaus y sefydliad ers ei lansio yn 2017, gyda lefelau buddsoddi blynyddol yn cynyddu o tua £80m i tua £150m, sy'n adlewyrchu graddfa ac aeddfedrwydd y ddarpariaeth.

Trwy'r buddsoddiad hwn, rydym wedi cefnogi dros 50,000 o swyddi a mewnwthio mwy na £650m o gyllid sector preifat, gan atgyfnerthu ein rôl fel buddsoddwr amyneddgar a chatalytig yn economi Cymru. Ochr yn ochr â'n darpariaeth graidd, rydym yn parhau i esblygu'r hyn rydyn ni'n ei gynnig - gan ymestyn cyrhaeddiad ac effaith cyllid cyhoeddus wrth ymateb i flaenoriaethau economaidd a pholisi sy'n dod i'r amlwg.

Yn ystod 2025/26, roedd y cyflawniadau nodedig yn cynnwys:

— Sicrhau cyllid newydd i ehangu cefnogaeth i ficrofusnesau, cyd-fuddsoddiad angylion, ac olyniaeth rheoli

— Cael ein cydnabod fel cyflogwr Great Places to Work, gan ddod yn y 14eg safle ymhlith cyflogwyr mawr y DU

— Cymeradwyo cymorth pontio ar gyfer ffermio cynaliadwy, gyda'r Cynllun Benthyciadau Amaethyddiaeth Gynaliadwy yn lansio yn haf 2026

— Digwyddiadau nodedig yng Ngogledd a De Cymru i nodi'r garreg filltir o £1bn, a fynychwyd gan y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth

— Lansio'r porth cwsmeriaid, gan symleiddio'r rhyngwyneb i gwsmeriaid ar gyfer ceisiadau a rheoli cyfrifon

— Cyflwyno Microsoft Copilot ledled y sefydliad, gyda chefnogaeth hyfforddiant cynhwysfawr i ymgorffori defnydd effeithiol o ddeallusrwydd artiffisial (AI)

— Cyflwyniad ffurfiol cyntaf o ddatgeliadau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd i'r Partnership for Carbon Accounting Financials

— Sgôr Hyrwyddwr Net Cwsmeriaid o 94, sy'n rhoi ein perfformiad yn gadarn yn y categori 'rhagorol'

— Sicrhau mwy o gyllid ar gyfer Cartrefi Gwyrdd Cymru, gan gefnogi perchnogion tai i ddatgarboneiddio eu cartrefi.

Bydd manylion llawn allbynnau 2025/26 yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Blynyddol.

## Angen busnes

Mae ansicrwydd economaidd byd-eang yn parhau i effeithio ar hyder busnesau, pwysau cost a chynllunio buddsoddiadau. Yn erbyn y cefndir hwn, mae argaeledd cyllid cyson, amyneddgar yn parhau'n hanfodol. Rydym yn parhau i weithio i nodi bylchau parhaus yn y farchnad drwy alinio'n agos â thimau polisi Llywodraeth Cymru, gwybodaeth rheng flaen gan ein cydweithwyr, gwerthusiadau annibynnol ac ymchwil dargedig i'r farchnad.

Bydd ein swyddogaeth ymchwil, Dirnad Economi Cymru, yn parhau i gyhoeddi mewnwelediad chwarterol i'r farchnad ochr yn ochr â dadansoddiad pwrpasol i gryfhau ymyrraeth a arweinir gan dystiolaeth - mae'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys adroddiadau ar gynhyrchiant busnes a'r sector amddiffyn.

O fis Ebrill 2026 ymlaen, byddwn hefyd yn lansio Fforwm Arweinwyr Sefydliadau Ariannol Cyhoeddus, gan ddod â chyllidwyr cyhoeddus ynghyd i wella cydweithrediad, aliniad ac effeithiolrwydd wrth fynd i'r afael ag anghenion busnes a'r farchnad ledled Cymru.

Mae dadansoddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi llywio piblinell o ymyriadau newydd i'w lansio yn 2026/27 gan gynnwys cynigion cyllid newydd ar gyfer y diwydiannau creadigol a chyd-fuddsoddiad ecwiti ehangach, yn ogystal ag ehangu ein cefnogaeth ar gyfer ynni a gweithredu ar yr hinsawdd.

Mae cymorth anariannol yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r hyn rydyn ni'n ei gynnig. Trwy'r Grŵp Cymorth Adfer, mae dros 270 o fusnesau bellach wedi cael eu cefnogi gydag ymyrraeth ariannol ac anariannol. Ategir hyn gan ein hyb dysgu ar-lein, sy'n cynnig canllawiau BBaCh hygyrch, o ddechrau busnes i ymadael.

# Trosolwg

## Y Dirwedd Wleidyddol

Edrychwn ymlaen at weithio gyda, ac ar ran, y Llywodraeth newydd yn 2026 wrth i Blaid Cymru arwain cyfeiriad datblygiad economaidd yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth wraidd hyn byddwn yn parhau i gyflawni ein cylch gwaith fel prif gyllidwr sector cyhoeddus busnesau bach a chanolig yng Nghymru trwy gyfrwng ein cyllid presennol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda chynrychiolwyr newydd y Cabinet i nodi atebion newydd i gyflawni mewn meysydd polisi allweddol a chynyddu'r cyflenwad a hygyrchedd cyllid sy'n datgloi potensial yn economi Cymru.

## Mewnwthio

Mae ehangu argaeledd ac amrywiaeth cyllid yng Nghymru yn parhau i fod yn ganolog i'n cylch gorchwyl. Trwy ein hasiant a awdurdodwyd gan yr FCA, FW Capital, rydym mewn sefyllfa dda i weithio gyda buddsoddwyr newydd i ddatblygu datrysiadau cyllido cyflenwol, gan adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus presennol, fel yr un gyda Banc Busnes Prydain.

Mae'r archwiliadau cyfredol yn cynnwys cyllid prosiectau ynni adnewyddadwy, buddsoddiad ecwiti eiddo tirol a chynnydd mewn cyllid BBaCh prif ffrwd, gan sicrhau bod gan fusnesau Cymru faes chwarae cyfartal i dyfu a llwyddo.

## Cefnogi perchnogion tai

Over recent years, the Development Bank has grown its support to Welsh homeowners. Early support in this space began with our property development funding, supporting the need to increase the supply of homes in Wales, and the delivery of Help to Buy Wales which has now reached over £620m of direct delivery, supporting the purchase of over 15,000 homes.

Yn 2024, gwnaethom lansio'r cynllun peilot Cartrefi Gwyrdd Cymru sydd wedi datblygu momentwm sylweddol a bellach wedi'i ymestyn i mewn i 2026/27. Mae'r cynnig yn cefnogi perchnogion tai yng Nghymru i wneud uwchraddiadau ynni-effeithlon i'w cartrefi gan gael effaith ar uchelgeisiau sero net a chefnogi lleihad mewn biliau ynni.

## Cynaliadwyedd a'r amgylchedd

Mae Sero Net yn ymrwymiad allweddol yn ein Cynllun Corfforaethol 2022-27. Mae ein ffocws ar gyflawni polisi ynni a hinsawdd Cymru yn parhau yn 2026/27 ac rydym yn dyfnhau ein cefnogaeth ar draws cartrefi, busnesau, amaethyddiaeth, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a datblygu diwydiannol.

Mae ein cyfres gynyddol o gefnogaeth mewn perthynas ag ynni a gweithredu ar yr hinsawdd bellach yn cynnwys cymhellion I ddatblygwyr eiddo ddefnyddio dulliau adeiladu gwyrddach; cyllid pwrpasol ar gyfer cynhyrchu ynni lleol; cefnogaeth i BBaChau yng Nghymru i ymgymryd â phrosiectau gwella ynni; a chefnogaeth uniongyrchol i berchnogion tai drwy'r Cynllun Cartrefi Gwyrdd. Yn 26-27 byddwn ni'n ymestyn ein cefnogaeth drwy lansio'r Cynllun Benthyciadau Amaethyddiaeth Gynaliadwy, gan gefnogi busnesau ffermio drwy ddiwygio cymorthdaliadau yng Nghymru gan hefyd roi cyfle i fuddsoddi mewn cynhyrchiant, effeithlonrwydd ynni a gwytnwch hirdymor.

## Cyflawni

Fel sefydliad sector cyhoeddus, mae darpariaeth effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian wrth wraidd ein gweithrediadau.

Yn 2025-26 gwnaethom ddatblygu ein strategaeth AI, a chwblhawyd hyfforddiant ar draws y cwmni cyn iddi gael ei chyflwyno yn 2026-27. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan dîm o Reolwyr AI.

Mae gwelliannau effeithlonrwydd parhaus wedi'u hymgorffori yn yr arferion gwaith ar draws ein timau ac yn 2026/27 byddwn yn adolygu ein proses meincnodi ffioedd gyda'r farchnad i sicrhau aliniad parhaus.

Yn bwysig, mae ein hamgylchedd cyflenwi yn un lle gall ein cydweithwyr ffynnu. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi dysgu a thwf tîm amrywiol sydd â'r nod cyffredin o weld datblygiad economaidd yng Nghymru. Rydym yn falch o fod wedi cael ein henwi fel y 14eg cyflogwr busnes mawr gorau trwy'r achrediad Great Places to Work, sydd ar waith ledled y DU.

# Trosolwg

## Targedau pum mlynedd

Wrth i ni fynd i mewn i flwyddyn olaf y cyfnod strategol presennol pum mlynedd, rydym ar y trywydd cywir i gyflawni yn erbyn y targedau uchelgeisiol a osodwyd yn 2022. Mae buddsoddiad uniongyrchol, busnesau a gefnogir a swyddi a gefnogir ychydig ar y blaen i'r targedau, tra bod trosoli'r sector preifat y tu ôl i'r disgwyl. Er nad yw hyn yn annisgwyl yn yr ardal o fwlch yn y farchnad lle mae Banc Datblygu Cymru yn gweithredu, gan ymyrryd lle nad yw cyllidwyr eraill yn weithredol, mae hefyd gydnabyddiaeth bod effaith ychwanegol i'w chofnodi er mwyn dangos yn well y trosoli a ddatgloiwyd drwy fuddsoddiadau. O fis Ebrill 2026, mae proses cofnodi oes buddsoddiad yn cael ei chyflwyno, sy'n adlewyrchu arferion cyllidwyr cyhoeddus eraill.

| Targedau pum mlynedd | Allbwn | % o'r targed hyd yma |
|---|---|---|
| Buddsoddiad Uniongyrchol | £534m | 103% |
| Cyd-fuddsoddiad (heb fod yn eiddo) | 0.77:1 (treigl) | 77% |
| Busnesau a gefnogir | 1,828 | 104% |
| Swyddi wedi'u creu / eu diogelu | 20,060 | 125% |

* Mae targedau 5 mlynedd yn ymwneud â Chronfeydd Llywodraeth Cymru yn unig ac nid ydynt yn cwmpasu holl ddarpariaeth Cymru sy'n cynnwys cyllid Banc Busnes Prydain.

Wrth i ni edrych ymlaen, bydd Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2027-31 yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2027, gan osod cam nesaf yr uchelgais ar gyfer Banc Datblygu Cymru a'i gyfraniad parhaus at dwf economaidd cynaliadwy.

# Gweithredol

# Prif amcanion busnes 2026/27

## Craidd: Darparu cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol

### Hwyluso diwylliant entrepreneuraidd, cefnogi cynhwysiant ariannol a blaenoriaethu effaith gymdeithasol

— Darparu £143.8m o fuddsoddiad i fusnesau yng Nghymru drwy dros 550 o fuddsoddiadau.

— Nodi a strwythuro cymorth offerynnau ariannol i fylchau sy'n dod i'r amlwg yn y farchnad yn economi Cymru, gan gefnogi'r llywodraeth newydd gyda ffocws ar amaethyddiaeth, cyd-fuddsoddi ecwiti, perchnogaeth/olyniaeth Gymreig a chartrefi newydd.

— Cydweithio â sefydliadau cyllid cyhoeddus eraill i rannu gwybodaeth ac arfer gorau a chreu datrysiadau yn y farchnad trwy rannu adnoddau, wedi'i ategu gan sefydlu Fforwm Arweinyddiaeth Sefydliadau Cyllid Cyhoeddus dan arweiniad Banc Datblygu Cymru.

— Datblygu cyfleoedd newydd i weithio gyda phartneriaid buddsoddi sydd â chylchoedd gwaith lleol a mewnwthio cyllid sector preifat i gynyddu'r mynediad at gyllid i fusnesau Cymru.

— Cyhoeddi allbynnau effaith ehangach o weithgarwch y Grŵp Banc Datblygu Cymru drwy adroddiadau gwell.

— Darparu cyfathrebiadau pwrpasol i randdeiliaid allweddol, gan gynnwys aelodau o'r Senedd, i gefnogi dealltwriaeth glir o'n cyflawniad a'n heffaith.

— Cyflwyno amserlen o adroddiadau mewnwelediad economaidd rheolaidd drwy'r bartneriaeth Dirnad Economi Cymru.

— Esblygu cefnogaeth gwerth ychwanegol a ffocws effaith y Banc Datblygu yn barhaus trwy wella'r hyb dysgu ar-lein, cyfeirio a chefnogi grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli (gyda ffocws ar anabledd), a gweithrediad parhaus y Grŵp Cymorth Adfer.



# Prif amcanion busnes 2026/27

## Datblygol: Hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru

### Hyrwyddo proses bontio gadarn a chymesur, datblygu offerynnau ariannol arloesol a dysgu'n barhaus am effeithiau newid hinsawdd

— Cynyddu capasiti ariannol ac adnoddau i gyflawni'r galw parhaus am Gynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru. Cefnogi arloesedd mewn technoleg werdd yng Nghymru drwy ystyried llwybr arloesi ar gyfer cynhyrchion ôl-osod newydd ar gyfer cartrefi hŷn gan gefnogi cynnydd ar broblem sy'n effeithio ar y sector ledled y DU.

— Cefnogi sefydliadau allweddol yn yr uchelgais i ddatblygu marchnad Cyfalaf Naturiol yng Nghymru drwy ddarparu mewnbwn i opsiynau strwythuro rheolaeth ariannol.

— Cwblhau dadansoddiad pontio sero net corfforaethol a strwythuro camau gweithredu a thargedau i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn ac fel rhan o gyflawni'r blaen-Gynllun Corfforaethol ar gyfer y Banc Datblygu.

— Sicrhau y cyflwynir data 25/26 yn amserol i'r Partnership for Carbon Accounting Financials a'r Principles for Responsible Investment.



# Prif amcanion busnes 2026/27

## Gweithredol: Rhagoriaeth wrth gyflawni, rhoi'r cwsmer yn gyntaf, cynaliadwyedd ariannol

### Cyflawni cydweithredol ac ymatebol, defnydd arloesol o gyfalaf a chefnogi polisi'r llywodraeth trwy strwythur ac arbenigedd

— Adeiladu sylfaen a rennir o ddealltwriaeth a hyder AI ar draws y sefydliad, gan alluogi ffyrdd o weithio a alluogir gan AI mewn ffordd ddiogel a chyson.

— Cyflawni rhaglen bwrpasol o brosiectau effeithlonrwydd ar draws pob maes o'r busnes yn barhaus.

— Cyflawni cynllun hyfforddi cydweithwyr cynhwysfawr ar gyfer uwchsgilio parhaus a rhagoriaeth wrth gyflawni. I gynnwys cynefino, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, rheoleiddio, dilyniant llwybrau, AI a dysgu Cymraeg.

— Paratoi'r sefydliad ar gyfer y cyfnod strategol newydd o fis Ebrill 2027 gan gynnwys sefydlu'r strategaeth, DPAau ac amcanion ar gyfer y cyfnod 4 blynedd nesaf a sicrhau parodrwydd yn fewnol ac yn allanol trwy gyfathrebu clir.

— Cwblhau'r 3ydd arolwg Great Places to Work a defnyddio canlyniadau i sicrhau arfer gorau a gwelliant parhaus.

— Cynnal adolygiad meincnodi ffioedd cronfa wedi'i ddiweddaru i sicrhau aliniad parhaus â chyfraddau'r farchnad a gwerth cyllid cyhoeddus.

— Sicrhau diogelwch busnes, uniondeb data, lliniaru bregusrwydd a systemau gweithredol cadarn trwy seiberddiogelwch cynhwysfawr.

— Darparu allbynnau llywodraethu amserol a chadarn ar draws archwiliadau mewnol ac allanol o weithgarwch cyflawni.

— Ymgymryd â'r gwerthusiad allanol tair blynedd o berfformiad ein Bwrdd.



# Cynaliadwyed

Yn 2025/26 gwnaethom gynnydd da wrth gyflawni ein strategaeth cynaliadwyedd gorfforaethol. Ymhlith y meysydd gwaith allweddol roedd cryfhau arferion buddsoddi cyfrifol trwy ymgorffori integreiddiad materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant ymhellach i'n proses fuddsoddi; datblygu cynnyrch cyllid cynaliadwy sy'n cynnig cefnogaeth i anghenion ffermio cynaliadwy; partneriaethau arloesi parhaus; a lleoli ein targedau cynaliadwyedd corfforaethol ein hunain.

Mae llawer o'r gwaith hwn wedi gosod y sylfeini i'n harwain at y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod fel y nodir isod.

## Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

1. Datblygu ein dull o integreiddio adrodd a gyrru gwerth trwy Safonau Adrodd Cynaliadwyedd y DU. Parhau i gyflwyno ein datgeliadau cynaliadwyedd yn flynyddol ar gyfer y Principles of Responsible Investing a'r Partnership for Carbon Accounting Financials.

2. Cyhoeddi ein cynllun pontio corfforaethol.

3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall gofynion ariannu natur a helpu i ddatgloi datblygiadau yng Nghymru.

4. Cryfhau partneriaethau, gan gynnwys gyda Diwydiant Sero Net Cymru, i gefnogi datblygu economaidd cynaliadwy.

## Safonau Adrodd Cynaliadwyedd y DU

Gofyniad sydd ar ddod ar gwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn y DU. Mae ein dull gweithredu wedi'i strwythuro i sicrhau y gallwn ymateb yn rhagweithiol unwaith y bydd Llywodraeth y DU yn cadarnhau'r amserlen weithredu. Gan integreiddio ein gwaith presennol, ein nod yw ymgorffori'r drefn adrodd cynaliadwyedd hon fel elfen graidd o sut rydym yn gweithredu - nid dim ond fel ymarfer cydymffurfio, ond fel gyrrwr tryloywder a gwerth hirdymor.

## Diwydiant Sero Net Cymru (NZIW)

Yn dilyn diddymu Diwydiant Cymru, bydd NZIW yn ymuno â Grŵp Banc Datblygu Cymru yn BA26/27. Drwy'r bartneriaeth hon byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i archwilio'n weithredol sut i sicrhau mai Cymru yw'r wlad ddewisol ar gyfer cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau cynaliadwy drwy gefnogi Diwydiant Cymru yn ei daith datgarboneiddio.



# Gwasanaethau buddsoddi eiddo

Rydym yn parhau i weithio gyda thimau Tai a Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru i nodi meysydd parhaus o gymorth polisi a all elwa o'r strwythurau cyflenwi ariannol cadarn, y llywodraethu sefydledig a'r tîm arbenigol o fewn y Banc Datblygu. Mae manylion pellach am ein gwasanaethau buddsoddi cyfredol yn y maes hwn isod.

## Cymorth i Brynu - Cymru

Yn ystod oes y cynllun, mae Cymorth i Brynu – Cymru wedi cefnogi 16,968 o geisiadau, gan arwain at 15,230 o bryniannau wedi'u cwblhau ac 8,360 o adbryniadau, gyda chyfanswm buddsoddiad o £617 miliwn. Ochr yn ochr â chyflenwi parhaus, mae nifer o welliannau gweithredol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar y gweill. Mae'r gallu i dalu gyda cherdyn yn cael ei gyflwyno i ehangu'r ystod o opsiynau talu sydd ar gael i gwsmeriaid, wedi'i gefnogi gan ddarparwr gwasanaeth talu sydd newydd ei benodi. Yn ogystal, mae cyfleoedd ar gyfer awtomeiddio dogfennau wedi'i yrru gan CRM o fewn Ôl-ddyledion a Chasgliadau yn cael eu harchwilio i wella effeithlonrwydd, cysondeb ac archwiliadwyedd. Mae ymarferoldeb SMS yn cael ei gyflwyno i gefnogi gweinyddu arolygon Sgôr Hyrwyddwr Net (NPS), gyda'r nod o gynyddu cyfraddau ymateb a chryfhau mewnwelediadau cwsmeriaid. Ar yr un pryd, mae fframwaith sgoriau risg newydd wedi'i sefydlu i alluogi risg cwsmeriaid i gael ei nodi, ei fonitro a'i uwchgyfeirio mewn ffordd fwy strwythuredig ar draws y portffolio benthyciadau, gan wella goruchwyliaeth a rheolaeth ymhellach.

## Cymorth i Aros

Lansiwyd y cynllun Cymorth i Aros - Cymru gan y Gweinidog dros Newid Hinsawdd ym mis Tachwedd 2023. Yn wahanol i gynlluniau tebyg eraill, mae'r gefnogaeth yn ymestyn i gamau ataliol ar gyfer y Perchnogion Tai hynny yng Nghymru sy'n wynebu achosion meddiannu a/neu galedi ariannol. Gyda chyfraddau llog, costau ynni a chostau byw cyffredinol cynyddol, mae nifer cynyddol o berchnogion tai yn wynebu'r posibilrwydd gwirioneddol o fethu â thalu eu had-daliadau morgais rheolaidd. Ar gyfer ymgeiswyr cymwys, bydd y cynllun yn cynnig asesiad ariannol gan Gynghorydd Morgeisi Annibynnol i benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o weithredu. Mae'r cynllun yn cynnig cyllid pwrpasol i leihau taliadau morgais misol presennol i lefel fforddiadwy a datrys materion ariannol sylfaenol, gyda'r bwriad o leihau'r risg o adfeddu a digartrefedd yng Nghymru. Mae'r tîm gweithredol yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cynghori dyledion ehangach ac awdurdodau lleol wrth gyflawni'r cynnig. Yn 2025-26, ehangwyd cymhwysedd y Cynllun i gynnwys ceisiadau ail daliadau a llog yn unig ar sail eithriadol fesul achos. Yn 2026-27 byddwn yn archwilio meysydd cymorth ychwanegol ymhellach i sicrhau bod y cynllun yn gwneud y gorau o'i allu i gefnogi perchnogion tai yng Nghymru ac atal digartrefedd.



# Gwasanaethau buddsoddi eiddo

## Hunanadeiladu Cymru

Mae Hunanadeiladu Cymru yn darparu pecyn ariannu sydd ar hyn o bryd yn cefnogi 75% o gost llain adeiladu a 100% o'r gost adeiladu ar gyfer prosiectau hunanadeiladu yng Nghymru. Er mwyn helpu hunan-adeiladwyr i dalu costau byw bob dydd, nid oes unrhyw ad-daliadau nes bod y cartref newydd wedi'i gwblhau. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd i adeiladwyr BBaCh Cymru adeiladu cartrefi o ansawdd. Mae'n cynnig llwybr i berchentyaeth i bobl sydd eisiau aros yn eu hardal leol ond nad ydynt wedi gallu fforddio prynu yno o'r blaen. Mae hefyd yn rhoi cyfle i bobl hŷn ac anabl adeiladu tai addasol unigryw sy'n diwallu eu hanghenion yn y cymunedau lle maen nhw eisiau byw. Nod y Cynllun yw annog mwy o bobl i adeiladu cartrefi yng Nghymru ac yn 2026-27 bydd yn archwilio opsiynau ar gyfer ehangu paramedrau'r cymorth er mwyn galluogi mwy o brosiectau i gael eu cyflwyno. Mae hyn yn cynnwys trothwyon benthyg mewn cymhariaeth â gwerth yn ogystal â maint y prosiect.

Hunanadeiladu Cymru Self Build Wales

## Cartrefi Gwyrdd Cymru

Wedi'i lansio ym mis Hydref 2024, mae Cynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru yn darparu pecyn cynhwysfawr o gymorth ariannol i berchnogion tai yng Nghymru i hwyluso gwelliannau ynni-effeithlon i'w heiddo. Fel yr unig asiant ôl-ffitio domestig ar gyfer perchnogion tai yng Nghymru, mae'r Cynllun yn cynnig cyfuniad unigryw o gyllid di-log, cyllid grant a chyngor arbenigol wedi'i ariannu'n llawn i helpu aelwydydd i leihau allyriadau carbon tra'n lleihau eu costau ynni. Gall y Cynllun gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â Chynllun Uwchraddio Boeleri Llywodraeth y DU, sy'n darparu grantiau ar gyfer gosod pympiau gwres ledled Cymru a Lloegr.

Ers ei lansio, mae'r Cynllun wedi denu miloedd o ddatganiadau o ddiddordeb, gyda gwahoddiadau i wneud cais yn cael eu cyhoeddi fesul cam i sicrhau rheolaeth effeithiol o'r galw. Yn dilyn llwyddiant y cyfnod peilot cychwynnol, mae £5m o gyllid newydd wedi'i ddyrannu i ymestyn y gwaith cyflawni trwy 2026/27. Dros y cyfnod hwn, bydd Banc Datblygu Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd i werthuso, mireinio a datblygu'r Cynllun ymhellach, gyda'r bwriad o gynyddu'r ddarpariaeth a sicrhau'r effaith hirdymor fwyaf posibl.

Cartrefi Gwyrdd Cymru Green Homes Wales



# Pobl

Rydym yn falch o fod wedi ein hardystio fel Great Place to Work™ am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn seiliedig yn gyfan gwbl ar adborth cydweithwyr am eu profiad o weithio yn y Banc Datblygu, gydag 89% o gydweithwyr yn dweud ei fod yn lle gwych i weithio - 35 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y DU. Rydyn ni hefyd yn falch o gael ein cydnabod fel un o Best Workplaces™ 2026 y DU, gan ddod yn y 14eg safle ymhlith y 100 gweithle mawr gorau ledled y DU. Mae'r achrediad hwn yn adlewyrchu cryfder diwylliant y gweithle, ansawdd profiad ein cydweithwyr, a'n hymrwymiad parhaus i gefnogi ein cymunedau.

Er bod hyn yn newyddion gwych, rydyn ni'n cydnabod bod angen i ni barhau i ddatblygu a chefnogi ein cydweithwyr. Ym Manc Datblygu Cymru, mae ein ffocws ar bobl yn parhau i gyfuno denu a chadw talent, gwerthfawrogi ein pobl, adeiladu ar ein diwylliant perfformiad a chynnal rhagoriaeth. Rydyn ni'n gyflogwr hynod hyblyg sy'n deall pwysigrwydd cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn parhau i wella'r hyn rydyn ni'n ei gynnig fel cyflogwr trwy adeiladu ar ddiwylliant cadarnhaol y Grŵp a sicrhau bod y Banc Datblygu'n parhau i fod yn lle gwych i weithio. Byddwn ni'n mabwysiadu dull cynlluniedig a chefnogol o greu amgylchedd gwaith iach a chynhwysol, gan alluogi cydweithwyr i berfformio ar eu gorau.

Bydd hyn yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o les a buddion, cryfhau cyfathrebu mewnol, bod yn fwy tryloyw o ran cyflogau, ac adfywio sianeli adborth ffurfiol i gefnogi ymgysylltiad.

Trwy gynllunio olyniaeth, byddwn ni'n gweithredu strwythur arwain clir sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac yn gwella gallu. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ein dull recriwtio a chynefino, ehangu cyrhaeddiad ein talent, cryfhau ein brandio fel cyflogwr, a chefnogi datblygiad gyrfaol mewnol trwy lwybrau clir a chynlluniau hyfforddi i aelodau iau o staff.

Byddwn ni'n parhau i adeiladu ar ein diwylliant perfformiad trwy ddysgu a datblygu rhagweithiol, gan sicrhau bod cydweithwyr yn gymwys ac yn parhau i gydymffurfio a pherfformio i lefel uchel. Bydd hyn yn cynnwys darparu o leiaf bedwar diwrnod o hyfforddiant fesul cydweithiwr, cynnig datblygiad a chefnogaeth barhaus i reolwyr llinell, ac ymgorffori Kallidus yn llawn fel y platfform craidd ar gyfer cydymffurfiaeth, cynefino, a hyfforddiant.

Yn olaf, byddwn yn gweithio ar draws y sefydliad i gefnogi ein cydweithwyr gydag integreiddio gallu AI i wella eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r manteision y gall eu cyflwyno i'w rolau.



# Ymchwil

Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales

Gan ddod ag ymchwil economaidd a BBaCh at ei gilydd, mae Dirnad Economi Cymru yn gydweithrediad ymchwil unigryw rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd, Ysgol Fusnes Bangor, yr Enterprise Research Centre, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae Dirnad Economi Cymru yn casglu a dadansoddi data ar farchnad gyllid Cymru, gan gyfoethogi dealltwriaeth o economi Cymru. Mae eu hymchwil yn cynnig mewnwelediad cadarn a dibynadwy i'r cyflenwad o - a'r galw am - gyllid yng Nghymru yng nghyd-destun economaidd ehangach Cymru.

Yn ystod 2026/27 bydd Dirnad Economi Cymru yn cyflawni'r canlynol:

— Adroddiadau pwrpasol gan y tri phartner ymchwil academaidd ar bynciau sy'n cynnwys llywodraethu ac ariannu mentrau a arweinir gan y gymuned; rôl 'arwyr cynhyrchiant' yn economi Cymru; cynllunio olyniaeth busnes; a'r diwydiant amddiffyn yng Nghymru.

— Adroddiadau chwarterol yn ogystal ag adroddiad effaith blynyddol a fydd yn cynnwys archwiliad dwfn o ddata gweithgarwch buddsoddi'r Banc Datblygu.

— Parhau gyda chyfres o ddigwyddiadau ar y cyd gyda Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wedi'u hanelu at Aelodau o'r Senedd ac uwch randdeiliaid allanol.

— Adroddiad a digwyddiad ar y cyd gyda Banc Busnes Prydain ar Fynediad BBaChau i Gyllid yng Nghymru, ein pedwaredd flwyddyn o gydweithio ar y prosiect hwn.

— Archwilio cyfleoedd i gynnal digwyddiadau lledaenu ymchwil ar y cyd gyda phartneriaid addas eraill.

Yn ystod 2026, byddwn yn cynnal adolygiad o Dirnad Economi Cymru i lywio ei gam nesaf o fis Ebrill 2027. Bydd yr adolygiad hwn yn ceisio adborth gan randdeiliaid ar ffocws ymchwil, cyflawniad, cyrhaeddiad ac effaith allbynnau Dirnad Economi Cymru.

## Uchafbwynt: Prosiect ymchwil arfaethedig

Strategaethau Cynllunio Olyniaeth Perchnogaeth Busnesau Bach

**Darparwr**

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd

**Crynodeb**

Bydd yr ymchwil hwn yn archwilio sut mae perchnogion busnesau bach yn ystyried a mynd i'r afael â strategaethau cynllunio olyniaeth busnes. Er gwaethaf pwysigrwydd cynllunio olyniaeth busnes, cyfyngedig yw'r ymchwil sydd wedi'i wneud ar y pwnc hwn. Er bod ymchwil presennol yn y maes hwn wedi tueddu i ganolbwyntio ar fentrau teuluol, bydd yr astudiaeth hon yn ceisio archwilio'r ystod ehangach o fodelau perchnogaeth busnes presennol.

Bydd y prif ffocws yn ymwneud â sut mae busnesau'n paratoi'n llwyddiannus i symud i'w cam nesaf o ddatblygiad. Bydd yn mabwysiadu dull astudiaeth achos sy'n seiliedig ar Gymru, wedi'i gefnogi gan ddadansoddiad data meintiol eilaidd ac adolygiad llenyddiaeth.

# Cyflawni

# Ein cronfeydd busnes

Mae ein darpariaeth cyllid wedi'i datblygu i gynnwys cyllid cyffredinol conglfaen wedi'i gefnogi gan gronfeydd arbenigol sy'n canolbwyntio ar fylchau penodol yn y farchnad. Mae'r gyfres o gynhyrchion yn caniatáu i ni gynnig a rheoli ystod o broffiliau risg a chymorth ychwanegol, gan gynnwys elfennau grant mewn rhai achosion, i yrru gweithgarwch mewn meysydd allweddol ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth.

Yn unol â'r ymrwymiadau llywodraethu a goruchwylio cronfeydd cadarn, yn ystod 2026/27 byddwn ni'n cwblhau'r amserlen flynyddol o adolygiadau cronfeydd sy'n gweithio i sicrhau bod anghenion parhaus y farchnad yn cael eu hasesu'n barhaus, yn ogystal â nodi gwersi cyflawni parhaus.

**£620m**
**Cynllun Cymorth i Brynu - Cymru**
Cefnogi perchentyaeth ledled Cymru

**£50m**
**Cronfa Fuddsoddi Twristiaeth Cymru**
Cyllid ar gyfer prosiectau twristiaeth strategol

**£25m**
**Cronfa Achub ac Ailstrwythuro**
Cyllid achub ar gyfer BBaChau

**£117m**
**Eiddo Preswyl Cymru**
Ariannu cyfleoedd datblygu eiddo preswyl

**£40m**
**Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru**
Ariannu cyfleoedd pryniant

**£34.5m**
**Cronfa Benthyciadau Micro Cymru**
Cefnogi anghenion buddsoddi o dan £50k

**£12.5m**
**Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru**
Cyd-fuddsoddi gyda syndicetiau angylion

**£12.5m**
**Cronfa Ynni Lleol**
Cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy lleol

**£92m**
**Cronfa Eiddo Masnachol**
Ariannu datblygiad gofod masnachol

**£40m**
**Cronfa Hunanadeiladu**
Cefnogi unigolion i adeiladu eu cartrefi unigryw eu hunain

**£500m**
**Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru**
Cronfa ecwiti a dyled gyffredinol gan gynnwys cyflwyno'r **Cynllun Benthyciadau Busnes**

**£5m**
**Cyllid Benthyciadau Amaethyddiaeth**
Gynaliadwy ar gyfer ffermio cynaliadwy
**I'w lansio yn Haf 26**

# Egwyddorion buddsoddi

Mae ein gweithgaredd benthyca busnes yn cael ei gyfeirio gan chwe egwyddor buddsoddi graidd. Mae ein rôl yn canolbwyntio ar gataleiddio gweithredu mewn busnesau a chan gyd-fuddsoddwyr i gael effaith ar ddatblygu economaidd yng Nghymru. Rhaid i'n gweithgaredd leihau dadleoliad y sector preifat a sicrhau enillion economaidd - yn gymdeithasol ac yn ariannol.

Wrth gyflawni polisi'r llywodraeth, lle nodir bod angen cymhellion ar sectorau datblygol o farchnadoedd, gellir gwneud eithriadau er mwyn strwythuro'r pecyn ariannol cywir i ysgogi gweithgarwch y farchnad – fel ein rôl fel Banc Datblygu. Mae hyn wedi bod yn wir ar gyfer uchelgeisiau sero net gyda chymhellion gwyrdd yn cael eu defnyddio mewn rhai amgylchiadau.

Mae'r gallu i wneud hyn bob amser wedi'i alinio'n llwyr â Chyfundrefn Rheoli Cymhorthdal y DU, naill ai drwy'r Cymorth Ariannol Lleiaf, sianeli Cymhorthdal Syml neu gofrestru Cynllun. Yn 2023/24 cwblhawyd cofrestriad y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro ac yn 2024/25 byddwn yn archwilio'r manteision o gofrestru'r Gronfa Ynni Lleol.

Rydym yn dadansoddi perfformiad buddsoddi yn barhaus ar draws ein cronfeydd i nodi arfer gorau a dysgu a rennir er mwyn sicrhau'r enillion parhaus gorau posibl. Mae hyn yn tynnu ar arbenigedd ar draws ein timau mewnol gan gynnwys cyllid, risg, dadansoddi busnes a chyflawni buddsoddiad.

**Chwe egwyddor craidd** dull gweithredu'r Banc Datblygu o ran buddsoddi yw:

| | |
|---|---|
| 1 | Rydym yn gweithredu lle mae **methiant yn y farchnad**, gan gefnogi cyfleoedd economaidd drwy sicrhau bod cyllid ar gael i fusnesau hyfyw ac ymateb i anghenion y farchnad a chwsmeriaid sy'n datblygu. |
| 2 | Rydym yn buddsoddi ar **delerau masnachol** gan brisio'r buddsoddiad yn deg i adlewyrchu'r risg. Mae hyn yn sicrhau nad ydym yn disodli'r sector preifat, a'n bod yn cynhyrchu enillion y gellir eu hailgylchu i mewn i gwsmeriaid newydd, gan greu ased hirdymor, gwerth am arian i Gymru. |
| 3 | Rydym yn **fuddsoddwr amyneddgar** sy'n darparu cyllid hygyrch i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y busnesau a gefnogwn. |
| 4 | Rydym yn cydweithio'n agos â'r sector preifat a'r sector cyhoeddus ac yn **tyrru cyd-fuddsoddiadau gan y sector preifat** lle bynnag y bo modd i gynyddu llif arian Cymru. |
| 5 | Rydym yn buddsoddi ar gyfer effaith ariannol ac anariannol cadarnhaol yn y cymunedau rhanbarthol yr ydym yn eu gwasanaethu gydag ystyriaethau **Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu** wedi'u gwreiddio'n gymesur yn ein penderfyniadau buddsoddi. |
| 6 | Rydym yn fuddsoddwr cyfrifol sy'n darparu **gwasanaethau rheoli buddsoddiad arbenigol, annibynnol** gan ddefnyddio ein tîm profiadol i ychwanegu gwerth at y busnesau rydym yn gweithio gyda nhw am oes y berthynas. |

# Polisi

Mae ein cylch gwaith yn canolbwyntio ar gefnogi uchelgeisiau polisi niferus Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig ehangach. Mae ein hamcanion yn alinio'n barhaus â chyflawni effeithiau datblygu economaidd yng Nghymru. Dangosir y prif aliniad polisi cyfredol isod. Yn 2026-27 byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth newydd i addasu ein haliniad yn ôl yr angen.

## Trosfwaol

**Y Rhaglen Lywodraethu –** Y Banc Datblygu i gefnogi cynyddu cyfranddaliadau ecwiti a darparu cyfalaf amyneddgar. Hefyd, cefnogi'r gwerthoedd cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.

**Gweithio gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net: Cynllun Cymru Gyfan –** Pob sefydliad sector cyhoeddus i fod yn sero net erbyn 2030. Mae'r Banc Datblygu yn ymrwymedig i gefnogi hyn.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol –** Saith nod llesiant a phum ffordd o weithio.

**Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2021**

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 –** galluogi adnoddau Cymru i gael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol a chynaliadwy, gan sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

## Economi

**Cenhadaeth economaidd –** Parhau i gefnogi economïau rhanbarthol cryfach, gyrru twf i greu swyddi gwell mewn cymunedau a hyrwyddo proses bontio deg.

**Contract Economaidd –** Contract economaidd y Banc Datblygu a chwe addewid cyflawni.

**Fframweithiau economaidd rhanbarthol –** Cymorth i raglenni cyflawni fel y'u nodir..

**Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu –** helpu i ddatblygu sector gweithgynhyrchu gwydn a gwerth uchel.

**Strategaeth Arloesi Cymru –** mabwysiadu ymagwedd sy'n fwy seiliedig ar genhadaeth tuag at arloesi.

**Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 –** cefnogi lansiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda chynnig peilot atodol.

## Gweithredol

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 –** Allbynnau a chyfathrebu dwyieithog, gan gefnogi'r uchelgais ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Deddf Caffael 2023 –** Rheoli proses y Banc Datblygu ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau.

**Gwaith Teg Cymru –** Cydymffurfiaeth ag arferion gwaith teg.

**Gweithio o bell –** Gweithio hyblyg i leihau ein hôl troed, gan gefnogi nod Llywodraeth Cymru i 30% o weithwyr weithio yn neu'n agos at eu cartrefi.

**Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 223 –** gweithio gyda'n gilydd i wella darpariaeth a lles gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## Tai

**Y Rhaglen Lywodraethu –** Mae'r Banc Datblygu'n cefnogi gwaith i adeiladu economi sy'n seiliedig ar waith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Rydym yn datgloi ac yn datblygu safleoedd masnachol modern ledled Cymru, sydd hefyd yn gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi'n llefydd gwell fyth i fyw a gweithio ynddyn nhw.

**Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 –** Ariannu datblygiadau i gefnogi'r nod o greu cartrefi a lleoedd hardd, gan hyrwyddo Dulliau Adeiladu Modern lle bo hynny'n bosibl.

## Amcanion llesiant y rhaglen lywodraethu

- Adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn
- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi'n llefydd gwell fyth i fyw a gweithio ynddyn nhw
- Gwthio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu

# Busnes cyfrifol

Rydym yn ymrwymedig ac yn ymgysylltu'n bwrpasol i sicrhau cydymffurfiaeth Amgylcheddol, Gymdeithasol a Llywodraethol ar draws ein holl weithrediadau. Rydym yn arwain trwy'r camau rydyn ni'n eu cymryd ac yn atebol am y penderfyniadau a wnawn. Rydym yn alinio ein cydymffurfiaeth ESG â'r arfer gorau allanol canlynol.

## Partnership for Carbon Accounting Financials (PCAF)

Partneriaeth a arweinir gan y diwydiant i hwyluso tryloywderac atebolrwydd y diwydiant ariannol i Gytundeb Paris. Fel aelod o'r Partnership for Carbon Accounting Financials, rydym yn parhau i weithio tuag at dryloywder llawn o ran yr allyriadau rydyn ni'n eu hariannu, mireinio ein methodolegau, cau bylchau data, a sicrhau bod ein hadroddiadau'n ddefnyddiol i randdeiliaid ac yn alinio â chanllawiau esblygol PCAF.

## Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol (PRI)

Fel prif gefnogwr buddsoddi cyfrifol y byd, mae'r UNPRI yn darparu fframwaith i ymgorffori buddsoddi cyfrifol i wella enillion a rheoli risgiau cysylltiedig yn well. Fel llofnodwyr, rydym yn ymgorffori ystyriaethau ESG yn ein llywodraethu, ein strategaeth fuddsoddi a'n penderfyniadau o ddydd i ddydd. Rydym yn gweithio i sicrhau cysondeb a gwerth asesiadau ESG ac ymgysylltiad â buddsoddwyr a rhanddeiliaid ar arferion busnes cyfrifol er budd Cymru.

## Cod Buddsoddi mewn Menywod

Mae'r Cod Buddsoddi mewn Menywod yn ymrwymiad gan gwmnïau gwasanaethau ariannol i wella mynediad at offer, adnoddau a chyllid i entrepreneuriaid benywaidd. Daethom yn llofnodwyd i'r Cod yn haf 2021.

## Cod Talu Prydlon

Mae'r Cod Talu Prydlon yn god ymarfer gwirfoddol sy'n gosod safonau ar gyfer arferion talu rhwng sefydliadau o unrhyw faint a'u cyflenwyr. Fel llofnodwr i'r Cod, rydym yn ymrwymedig i dalu cyflenwyr ar amser, rhoi canllawiau clir i gyflenwyr, yn ogystal â mabwysiadu ac annog arfer gorau.

## Great Place to Work

Great Place to Work® yw'r darparwr arolwg cyflogeion byd-eang mwyaf. Rydym yn gweithio gyda nhw i arolygu ein cydweithwyr, meincnodi'r canlyniadau a nodi bylchau i wella diwylliant ac ymgysylltiad a hefyd i ddenu a chadw talent.

## Sector Cyhoeddus Sero Net - Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cym (WGES)

Gwasanaeth ar gyfer cyrff Sector Cyhoeddus yng Nghymru a ffurfiwyd i gefnogi'r uchelgais ehangach am lwybr cydlynol i sero net. Rydym yn gweithio gyda WGES a fforwm o gyrff sector cyhoeddus i ddatblygu data allyriadau corfforaethol o ansawdd uchel, targedau sero net clir a realistig a chynllun lleihau carbon corfforaethol.

# Is-gwmnïau

# FW Capital

FW Capital yw cangen rheoli cronfeydd gofrestredig Grŵp Banc Datblygu Cymru sydd wedi'i chofrestru gyda'r FCA. Ar hyn o bryd mae'n gweithredu o 7 swyddfa ar draws Gogledd a De-orllewin Lloegr ac mae'n ymestyn ei weithrediad i Gymru fel asiant cyflawni Cronfa Olyniaeth Busnes Cymru a Chronfa Fuddsoddi Cymru. Ar hyn o bryd mae FW Capital yn cyflogi 40 o gydweithwyr buddsoddi ac mae ei weithrediadau'n cael eu goruchwylio gan ddau gyfarwyddwr cronfeydd pwrpasol.

Ochr yn ochr â chyflawni capasiti rheoli cronfeydd rheoleiddiedig y Grŵp ar gyfer Cymru a gweithgareddau rhanbarthol ehangach, mae FW Capital yn ffurfio rhan greiddiol o strategaeth y Grŵp gan greu budd uniongyrchol i Gymru drwy:

**Arbenigedd -** Ehangu cwmpas gweithgarwch buddsoddi'r Grŵp ac felly gynyddu'r sylfaen wybodaeth a gwybodaeth am y farchnad ar draws y sefydliad.

**Perthnasoedd trydydd parti -** Sicrhau a chyflawni contractau yn llwyddiannus ar ran trydydd partïon, gan gynnwys Banc Busnes Prydain.

**Ariannol -** Gwneud cyfraniad ariannol at weithrediadau'r Grŵp, yn ogystal â chreu swyddi yng Nghymru ar gyfer cymorth swyddfa gefn.

## Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2026/27 yw:

**Cronfa Fuddsoddi Cymru -** Cynyddu'r ddarpariaeth o gronfa ddyled fwy Banc Busnes Prydain Cymru, a weithredir gan FW Capital, i £10m gan sicrhau bod mwy o fusnesau o Gymru yn cael eu cefnogi gyda chyllid twf.

**Cynyddu cyllid hygyrch i fusnesau Cymru -** Ar ôl sicrhau £40m ychwanegol o gyllid ar gyfer Cronfa Olyniaeth Busnes Cymru yn 2025/26, bydd FW Capital yn parhau i ddatblygu cyfleoedd gyda buddsoddwyr eraill gan gynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru i gynyddu'r cyllid BBaCh sydd ar gael ar gyfer sylfaen eang o anghenion busnes gan gynnwys parhau â'r trafodaethau ar gyfer cynllun Ecwiti Preswyl Effaith Leol.

**Cyflawni yn erbyn targedau cronfeydd -** sicrhau cyflawniad cryf parhaus yn erbyn y targedau buddsoddi ar gyfer ei wyth cronfa fyw sy'n gweithredu ledled Cymru, De Lloegr a Gogledd Lloegr, gan gyflenwi dros £60m o gyllid i BBaChau.

**Archwilio cyfleoedd contract newydd gyda buddsoddwyr newydd -** bydd FW Capital yn ystyried cyfleoedd rheoli cronfeydd newydd gyda buddsoddwyr newydd a chyfredol yn ei ranbarthau presennol a thu hwnt i barhau i adeiladu arbenigedd, profiad, perthnasoedd â buddsoddwyr a chyfleoedd ar gyfer cyflawni trawsffiniol - gyda buddsoddiad mewn eiddo BBaCh yn achos prawf da ar gyfer hyn.

# Angylion Buddsoddi Cymru

Angylion Buddsoddi Cymru
Angels Invest Wales

Bydd y rhaglen Angylion Buddsoddi Cymru yn cynnal ei safle fel y rhwydwaith angylion blaenllaw yng Nghymru yn ystod 2026/27 ac yn parhau i hyrwyddo'r duedd tuag at fuddsoddi 'syndicet'. Mae hyn yn benodol yn cynnwys ffocws ar gefnogi twf syndicetiau angylion sefydlog yng Nghymru drwy ddefnyddio Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru.

Bydd Angylion Buddsoddi Cymru yn ceisio cyflymu momentwm y blynyddoedd blaenorol wrth gadw a chynyddu ei nifer o fuddsoddwyr gweithredol wrth ehangu cysylltiadau cyd-fuddsoddi â grwpiau angylion eraill a buddsoddwyr cyfnod cynnar.

Y blaenoriaethau gweithredol a chynlluniau strategol penodol ar gyfer Angylion Buddsoddi Cymru yn 2026/27 yw:

— Defnyddio Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru ochr yn ochr â syndicetiau angylion cyfredol a newydd.

— Strategaeth ymgysylltu â buddsoddwyr i gynnal eiriolaeth y sylfaen fuddsoddwyr bresennol, ochr yn ochr ag ymgais i gynyddu niferoedd buddsoddwyr gweithredol a syndicetiau sectoraidd a rhanbarthol.

— Allgymorth ac ymgysylltu parhaus â busnesau (a sefydliadau cymorth cysylltiedig) sy'n chwilio am fuddsoddiad angylion yng Nghymru i gydweddu twf ochr cyflenwad a galw gweithgarwch buddsoddi angylion yng Nghymru.

— Cofleidio a defnyddio technoleg AI newydd o fewn Angylion Buddsoddi Cymru i yrru effeithlonrwydd gweithredol; gyda'r nod o roi mwy o gapasiti ar gyfer defnyddio Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru ac ymgysylltu â buddsoddwyr / cwmnïau.

— Parhau i gydweithio'n agos â'n tîm mentrau technoleg - gan ddarparu "siop un stop" di-dor i gwmnïau cyfnod cynnar sy'n chwilio am fuddsoddiad cychwynnol a menter.

Bydd Angylion Buddsoddi Cymru hefyd yn parhau i gyflawni eu rhaglen o ddigwyddiadau gan ddarparu ymgysylltiad uniongyrchol i fusnesau cyfnod cynnar ag angylion buddsoddi gan gynnwys digwyddiadau cyflwyno ac ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar fuddsoddwyr i annog ffurfio syndicetiau.

# Amlinelliad o'r strategaeth

**Pwrpas a chenhadaeth**

- **Dod ag uchelgeisiau yn fyw a thanio posibiliadau i bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru.**
- **Datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu'r cyflenwad a hygyrchedd cyllid cynaliadwy ac effeithiol.**

**Gweithred**

- Sicrhau bod effaith gymdeithasol yn flaenoriaeth i fusnesau
- Hyrwyddo cyfnod pontio gwyrdd i fusnesau
- Cyflwyno mewn modd cydweithredol ac ymatebol sy'n ffocysu ar y cwsmer
- Cefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Datblygu datrysiadau ariannol yn ffocysu ar ddat-garboneiddio
- Optimeiddio ein harbenigedd a strwythurau
- Hwyluso diwylliant entrepreneuraidd
- Dysgu parhaus am rôl cyllid o ran gweithrediadau sero net
- Defnydd arloesol o gyfalaf

**Ariannol**

- Effeithlonrwydd gweithredol
- Dychwelyd ac ailgylchu buddsoddiad
- Fframweithiau cyllidebol
- Defnydd effeithiol o gyllid

**Cyflawni buddsoddiad**

- Mynd i'r afael â methiant yn y farchnad
- Telerau masnachol
- Buddsoddwr amyneddgar
- Ffocws ar ACLI
- Arbenigol ac annibynnol

**Gwerthoedd**

- Cydweithrediad craff
- Egni entrepreneuraidd
- Empathi gwrthrychol
- Cyfrifoldeb ymwybodol

**Strategaeth**

- **Craidd –** Cynyddu'r cyflenwad o gyllid dyled ac ecwiti er effaith
- **Newydd –** Hyrwyddo a hybu dyfodol gwyrdd
- **Gweithredol –** Cyflawni rhagoriaeth, cynaladwyedd ariannol, cwsmer yn gyntaf

**Gyrrwyr**

- Uchelgeisiau polisi LlC
- Anghenion busnes
- Bwlch yn y farchnad
- Anghenion rhanddeiliaid
- Nodau sero net

Banc

bancdatblygu.cymru
developmentbank.wales

Mewn Partneriaeth â
**Llywodraeth Cymru**
In Partnership with
**Welsh Government**

Banc Datblygu Cymru ccc yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gangynnwys y llythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'neiddo i Weinidogion Cymru yn gyfan gwbl ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoli Darbodus (ARhD) nac yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Banc Datblygu Cymru dri o is–gwmn.au sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA.Noder os gwelwch yn dda nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau ynsefydliadau bancio ac nid ydynt yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu nad yw unrhywun o endidau'r grŵp yn gallu derbyn adneuon gan y cyhoedd. Gellir dod o hyd i siart strwythurcyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc i'w gael yn bancdatblygu.cymru.